

TEMPLED CYNLLUNIO TYMOR

Mae gan dymor pêl droed lawer o wahanol gamau ac felly mae'n bwysig meddwl pa gefnogaeth y gallai fod ei hangen ar wirfoddolwyr newydd neu bresennol ar wahanol adegau o'r flwyddyn. Efallai bod gan bob gwirfoddolwr yn eich clwb bwynt gwahanol lle gallant deimlo bod pethau'n heriol neu o dan bwysau. Felly mae'n syniad da i'ch pwyllgor ystyried hyn a chynllunio pryd y gallai fod angen cefnogaeth trwy gydol y tymor. Os byddwch chi'n sefydlu'r calendr a'r cyfnodau disgwylidig - gallwch chi deimlo rhythm yn datblygu gyda'ch gwirfoddolwyr dros amser.



Beth allwch chi ei wneud i helpu'ch gwirfoddolwyr?

Gallai eich pwyllgor gyflwyno cynllun tymhorol syml sy'n tynnu sylw at dasgau neu ddigwyddiadau allweddol sy'n cael effaith ar draws gwahanol swyddogaethau gwirfoddol yn y clwb ac sy'n galluogi i chi ystyried pa gefnogaeth y gellid ei rhoi. Rydym wedi darparu templed syml y gellir ei lawrlwytho a allai eich helpu i feddwl sut gellid rhannu'r tymor ac sy'n annog eich pwyllgor i feddwl ar draws y gwahanol swyddogaethau gwirfoddol, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ba gefnogaeth y gallai fod ei hangen.

Pa fath o gefnogaeth ddylid ei darparu?

Bydd y gefnogaeth yn amrywio ar wahanol adegau o'r flwyddyn, o glwb i glwb ac yn dibynnu ar sgiliau neu brofiad y gwirfoddolwr. Gall cymryd ychydig bach o amser, ddwywaith y tymor, i feddwl am eich sefyllfa fod yn hynod werthfawr. Gallai'r enghreifftiau o gefnogaeth i wirfoddolwyr gynnwys y canlynol:

- Galwad ffôn gyfeillgar i 'gadw mewn cysylltiad' i weld sut maen nhw'n dod ymlaen
- Recriwtio rhai cynorthwywyr am ychydig wythnosau neu fisoedd
- Cysylltu'ch gwirfoddolwr â gwirfoddolwr profiadol o'r tu mewn neu'r tu allan i'ch clwb i rannu profiadau
- Rhannu cyfrifoldebau ar adegau allweddol o fwy o bwysau
- Mynd yr ail filltir i ddangos eich gwerthfawrogiad; gall diolch annisgwyl ar unrhyw ffurf fod yn bwysig iawn



TEMPLED CYNLLUNIO TYMOR

Clwb Cymru | Templed Cynllunio Tymor

Cam yn ystod y tymor	Tasgau allweddol neu bethau i feddwl amdanynt	Aelod o'r pwyllgor	Y gefnogaeth sydd ei hangen
Mehefin - Gorffennaf			
Awst - Medi			
Medi - Rhagfyr			
Ionawr - Mai			
Mai			
Fel y bo angen - Digwyddiadau a all ddigwydd yn annisgwyl, gan ddibynnu ar y tywydd, y byd pŵl droed a diwylliannol ehangach			